



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

**TEITL** Rheoliadau Anifeiliaid Ceffyllaidd (Cofnodion, Adnabod a Symud)  
(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

**DYDDIAD** 22 Tachwedd 2018

**GAN** Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

### **Rheoliadau Anifeiliaid Ceffyllaidd (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/262 dyddiedig 17 Chwefror 2015 sy'n gosod rheolau yn unol â Chyfarwyddbau'r Cyngor 90/427/EEC a 2009/156/EC mewn perthynas â'r dulliau ar gyfer adnabod equidae ("Y Rheoliad ar Basbortau Ceffyllau")
- Penderfyniad 92/353/EEC dyddiedig 11 Mehefin 1992 sy'n gosod y meini prawf ar gyfer cymeradwyo neu gydnabod sefydliadau a chymdeithasu sy'n cadw neu'n sefydlu llyfrau gre ar gyfer equidae cofrestredig
- Penderfyniad y Comisiwn 92/216/EEC dyddiedig 26 Mawrth 1992 ar gasglu data yn ymwneud â chystadlaethau ar gyfer equidae fel y cyfeirir atynt yn Erthygl 4(2) o Gyfarwydddeb y Cyngor 90/428/EEC
- Penderfyniad y Comisiwn 92/354/EEC dyddiedig 11 Mehefin 1992 sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer sicrhau cydlyniant rhwng sefydliadau a chymdeithasau sy'n cadw neu'n sefydlu llyfrau gre ar gyfer equidae cofrestredig
- Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd 2018/424, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 166/2016

### **Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae adnabod anifeiliaid o deulu'r ceffyl yn swyddogaeth ddatganoledig

### **Diben y diwygiadau**

Diben yr OS hwn (y weithdrefn negyddol), i'w gyflwyno gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), fydd gweithredu'r addasiadau hynny sy'n angenrheidiol ar draws y DU er mwyn i Reoliadau'r UE ynghylch adnabod ceffyllau barhau i fod yn gymwys. Bydd yn sicrhau y bydd rheolau adnabod a fydd yn gyfwerth â'r rheini yn Rheoliad (EU)

2015/262 yn gallu parhau i weithio ar draws y DU unwaith y bydd y DU wedi ymadael â'r UE.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-equine-identification-england-amendment-eu-exit-regulations-2018>

### **Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.